

Papur Pawb

Pris: 50c

Mai 2010

Rhif 359



Daeth yr ymgyrch etholiad ag un llun da, o leia – ond gan lolo ap Gwynn y tro hwn!

tud 3

Pobl a Phethe

tud 4

Ladis bach y pentre

tud 9

Awduron lleol

tud 12

Chwaraeon

Cryfhau gwasanaethau'r Post

Mae'r Swyddfa'r Post wedi cyhoeddi gwelliant i'w gwasanaeth 'Pan oeddech chi allan' ym mhentref Tal-y-bont, Ceredigion.

Ar hyn o bryd, mae pentrefwyr sy'n cael cerdyn trwy eu blwch llythyrau i ddweud fod y postmon wedi ceisio'n aflwyddiannus i ddosbarthu eitem yn cael gorchymyn i fynd i gangen Swyddfa'r Post Bow Street i gasglu'r eitem. Ond o ddydd Mawrth 04 Mai, bydd modd casglu eitemau o siop y pentre.

Daeth y newid yn bosibl yn sgil partneriaeth newydd rhwng perchennog y siop, Heulwen Astley, a Peter Edwards, yr is-bostfeistr ym mhentref cyfagos Penparcau.

Dyweddodd Phil Rowley, Rheolwr y Swyddfa Ddosbarthu, Post Brenhinol yn Aberystwyth: "Rwy wrth fy modd fod y Post Brenhinol erbyn hyn yn gallu cynnig y gwasanaeth hwn i'n cwsmeriaid yn Nhal-y-bont, ac rwy'n siŵr y byddan nhw'n gwerthfawrogi'r newid. Serch hynny, mae'n bwysig fod y sawl sy'n casglu eitem o bost yn gallu cyflwyno prawf adnabod, fel pasport neu gerdyn banc. Os oes rhywun yn casglu ar ran rhywun arall, bydd angen cyflwyno prawf adnabod ar gyfer y person hwnnw."

Yn ogystal, mae modd trefnu, dros y ffôn neu ar-lein, i gasglu eitemau – neu i ail-ddosbarthu eitemau i swyddfa bost arall yn y cyffiniau neu i gyfeiriad lleol



Dwy bostfeistres Talybont: Heulwen Astley a Kathleen Richards

arall.

Gallwch bellach dynnu arian allan gyda cherdyn banc yn y Swyddfa Bost leol fel pe bai yno dwll yn y wal. Nid yw hyn yn cynnwys banciau HSBC na Nat West ar hyn o bryd, ond fe gynhwysir y banciau i gyd cyn bo hir.

Mae'n bosib hefyd i chi brynu disg treth i'r car yn y Swyddfa Bost, ond rhoi rhybudd ymlaen llaw.

Mae nifer o wasanaethau newydd wedi ymddangos yn siop Spar yn ddiweddar hefyd.

Mae gan Heulwen gyflenwad o fagiau ail-gylchu'r cyngor, felly os byddwch yn drysu ar nos Iau heb wybod sut i roi'r sbwriel allan, galwch yn y siop.

I'r rhai ohonoch sy'n hoffi darllen, mae silffoedd o lyfrau ail-law yn y siop am £1 yr un, gyda'r arian yn mynd i elusen. Cyfnewid llyfrau yw'r syniad, felly dewch a'ch nofel ddiweddaraf ac fe gewch un arall yn ei lle.

Ond y newid mwyaf yw'r dau gwpwrdd newydd sy'n

arddangos dewis helaeth o dlysau, yn freichledau, mwclis a chlustdlysau, y cyfan yn chwaethus dros ben. Mae ganddi adran hefyd sy'n dangos breichledau magnetig. Yr oedd yr Eifftiaid a'r Groegiaid yn gwybod am eu rhinweddau llesol ond mae Heulwen ei hun yn gallu tystio ei hun i'r lleshad a ddaw o'u gwisgo.

Bu Heulwen yn siarad yn ddifyr iawn ar raglen radio Richard Rees fore Gwener 16 Ebrill. Soniodd am ei diddordeb

i dudalen 2

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Geraint Evans (01970) 832473 Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion. post@garnwen.org.uk Cysyllter â golygyddion y mis. Carys Briddon
Tynnu lluniau:	
Teipyddes:	
Bont-goch:	GOHEBYDDION LLEOL
Parsel Henllys:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Eglwysfach:	Dilys Morgan, Alltgoch 832498
Taliesin:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais (01654) 781312
Tal-y-bont:	Mai Leeding, Glannant, Taliesin 832672
	Aileen Williams, Maesmeillion 832438
	Kathleen Richards, Y Bryn 832201
Tre'r Ddôl:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl 832429
	Janet Evans, Cefngweiriog (01654) 781260
Maes y Deri:	Eirlys Jones, 91 Maes y Deri 832483
Cadeirydd:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Is-gadeirydd:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Ysgrifennydd:	Geraint Pugh, Dôl Pistyll 832433
Trysorydd:	Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont 832384
Aelodaeth:	Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont 832560
Hysbysebion:	Aileen Williams, Maesmeillion 832438
Plygu:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais (01654) 781312
Dosbarthwyr:	Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Eirlys Jones (Tanygrifiadau)

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

o'r dudalen flaen

mawr mewn Dawnsio Llinell a'r dosbarthiadau mae hi'n eu cynnal yn yr ardal hon gyda rhyw hanner cant o aelodau o 5 oed i rai yn eu saith degau yn mwyhau dawnsio, cadw'n heini a chael llawer iawn o hwyl i gyfeiliant Canu Gwlad. Mae'r Ravin Stompers, fel mae'r grŵp yn cael ei alw, yn cynnal digwyddiadau'n rheolaidd i godi arian ar gyfer nifer o achosion da. Mae Cronfa Canser y Fron, Ysbyty Bronglais eisoes wedi derbyn dros £17,000 trwy ymdrechion Heulwen a'i chefnogwyr. Os am ymuno yn yr hwyl, a chefnogi achosion da, holwch Heulwen yn y siop neu ewch i'w gwefan www.ravinstompers.org.uk.

Cyfarfod Blynyddol Papur Pawb

nos Fawrth, 15 Mehefin,

am 8.00 o'r gloch

yn ngwaelod Neuadd Goffa Tal-y-bont.

Croeso cynnes i gefnogwyr ein papur bro.

Dyddiadur

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn dyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Barbeciw
27 Bethel 2 Parch Terry Edwards
Nasareth 5 Bugail
Rehoboth 10 M.T. Morris
Eglwys Dewi Sant 9.30 Boreol
Weddi

GORFFENNAF

4 Bethel 5 Gweinidog
Nasareth 11.15 Bugail
Rehoboth 5 Bugail

Rhestr Hir Lyfr y Flwyddyn

Pan gyhoeddwyd, mewn seremoni ym Mangor nos Fawrth 20 Ebrill, pa ddeg llyfr Cymraeg oedd wedi ennill eu lle ar Restr Hir Llyfr y Flwyddyn, da gweld bod pedair o'r cyfrolau hynny'n dod o stabl y Lolfa yn Nhal-y-bont, sef: *Cymru, y 100 lle i'w gweld cyn marw*, John Davies a Marian Delyth; *Fel Aderyn*, Manon Steffan Ross; *Naw Mis*, Caryl Lewis a *Banerog*, cerddi o waith y bardd Hywel Griffiths, sydd bellach wedi symud i fyw i'r pentref. Detholiad o gerddi caeth a rhydd a geir yn ei gyfrol gan gynnwys cerdd fuffugol Y Goron a enillodd yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn 2008. Cyhoeddir y rhestr fer o dri theitl mewn digwyddiad a gynhelir ddydd Sul 6 Mehefin yng Ngŵyl y Gelli.

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth, Batris a Theiars
Gellir llogi car, fan neu fws mini i'w gyrru eich hun
www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Cynhyrchwyd y rhifyn hwn gan Enid a Robat Gruffudd. Golygir y rhifyn nesaf gan Mair Nutting (832027, mair.n@btinternet.com) a Beryl Evans (832344, rhian.evans@tiscali.co.uk). Dyddiad cau 04/06, papur allan 11/06.

Noddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Glanyrafon

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM

Ffôn 01970 636774

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

Rhodfa'r Parc

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesian at Gwyn Jenkins drwy ebost (maesgwyn@fmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.

Llongyfarchiadau

i Richie a Beryl Evans, Glanrafon, Talybont ar y dathliad dwbwl. Dau benblwydd pwysig mor agos at ei gilydd!

Llongyfarchiadau hefyd

i Kara Jones 9, Maes y Deri a ddathlodd ei phenblwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

Celtic Challenge

Bu cynrychiolaeth gref o ardal Papur Pawb yn cefnogi ras rwyfo'r Celtic Challenge eto eleni. Maent i gyd yn aelodau o Glwb Rhwyfo Aberystwyth. Rhwyfodd Carol Davies, Taliesin a Sian James, Talybont gyda thîm y menywod, ac ymunodd Dai Dowsett a Mick a Jenny Fothergill gyda'r timau cymysg. Roedd 18 o dimau'n cystadlu gan gychwyn o Arklow yn Iwerddon, rhwyfo ar draws Môr yr Iwerydd a chyrraedd harbwr A berystwyth tua 9.30 fore Sul 2il o Fai. Roedd Steve Fletcher, Maesyfelin, Talybont hefyd yn un o'r rhai oedd allan ar y môr yn cefnogi'r Râs.



Cadair arall i Phil

Llongyfarchiadau i Phil Davies, Gwynionydd, Tal-y-bont, ar ennill cadair yn Eisteddfod Rhydlewis nos Sadwrn 24 Ebrill am delyneg mewn mydr ac odl ar y testun 'Unigrwydd'. Yn ogystal â derbyn cadair fechan cafodd Phil y pleser o wrando ar Washington James yn canu Cân y Cadeirio, ac roedd nifer fawr o'i ffrindiau a chydabod yn y gynulleidfa – profiad gwerth chweil.

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Pobl a Phethe

Dathlu Penblwydd



Mae Michael James, organydd eglwys Y Borth ac Eglwysfach wedi dathlu ei benblwydd yn 80 yn ddiweddar. Mae Michael yn ddall – ef yw'r ail berson ar y chwith yn y llun. Gwelir ef gyda'r ficer a rhai o'r gynedlleidfa a phlant yr Ysgol Sul. Roedd gwasanaeth arbennig yn eglwys Y Borth. Cafodd anrheg, a lluniaeth i ddilyn.

Dyweddïo

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Hywel Griffiths ac Alaw Lewis, Y Garth, Tal-y-bont, sydd wedi dyweddïo'n ddiweddar. Pob hapusrwydd i'r ddau.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Seimon Lloyd Williams, Moelglomen sydd wedi colli ei fam yn ddiweddar.

Collodd Bob Williams, Penwern ei frawd yng nghyfraith, Gwyn Jones Bow Street. Cydymdeimlwn ag ef ac a'i deulu.

Collodd Lyn Ebenezer, Maes y Felin, Talybont ei thad. Anfonwn ein cofion cynhesaf ati hi, ac at ei theulu.

Mae Edwina Rhodes, Maesyfelin, hithau wedi colli ei llys-dad.

Cydymdeimlwn hefyd â Lilian Hughes, Foelas, Glandyfi, sydd wedi colli ei chwaer yn ddiweddar.

Rydym yn cydymdeimlo'n fawr iawn ag Arwyn Evans, Cefngweiriog a fu mewn damwain car ddifrifol. Mae'n dda iawn clywed ei fod wedi dod adref o'r ysbyty ac yn gwella.

Croeso

i Mr a Mrs Ian Lewis a'r teulu sydd newydd symud i Swn-y-gog, Bont Goch. Dymunwn yn dda iddynt wrth eu croesawu i'r pentref.

Y gog

Mae'n braf cael adrodd yn y cyd-destun hwn y clywyd y gog yn canu unwaith eto yn ardal Bont Goch ar ôl absenoldeb o ddwy flynedd. Gobeithio fod hyn yn arwydd o bethau gwyhych i ddyfod.

Gwellhad Buan

Mae Dylan Hughes, 92, Maes y Deri wedi brifo ei fys, ond mae yntau'n gwella.

Mae Islwyn Davies, ffrind Eirlys Jones, Maes y Deri yn Ysbyty Bronglais, anfonwn ein dymuniadau gorau iddo.

Drwg gennym glywed fod Eleri Huws, Pengwern, Talybont wedi cael damwain ar ei throed. Wedi bod yn darllen gormod o lyfrau trwm medde nhw! Da clywed ei bod yn well.

Geni

Ganwyd merch Azra i Ahmed a Sam, Stryd y Capel Taliesin. Pob dymuniad da i'r teulu.

Llongyfarchiadau

i Vicky a John, Tanybryn ar enedigaeth Benjamin, brawd i Steffan ac Ellie ac wŷr i Phyllis a Haydn, Manteg, Taliesin.

Wyr bach newydd

Llongyfarchiadau i Glyn a Gill Saunders Jones, Y Fagwyr, ar ddod yn nain a thaid am y chweched tro pan aned trydydd mab (Tomos Dafydd) i Dafydd a Beccs, Talgarth, Powys, ar ddydd Sadwrn y Pasg – brawd bach i Harri a Rhys. Pob dymuniad da i'r teulu i gyd.

Radio Ceredigion

Deallwn fod Barbara Madden, Maesyderi, sydd wedi bod yn cynorthwyo gyda rhaglenni Cymraeg Radio Ceredigion wedi colli ei gwaith am fod Radio Ceredigion wedi dileu'r holl raglenni Cymraeg. Gweithio'n wirfoddol yr oedd Barbara, ac yn mwynhau ei gwaith. Mae pawb oedd yn gweithio yn y ganolfan yn Aberystwyth wedi colli eu gwaith.

Bydd colled fawr ar ôl y rhaglenni cartrefol hyn. Mae'r cyfan erbyn hyn wedi eu recordio ymlaen llaw a'r hwy! a geid gyda'r sgwrsio byr-fyfyr a'r cystadlu hwyliog wedi mynd. Dyma fater y dylai'r gwleidyddion sydd i fod i'n cynrychioli edrych arno ar frys.

Gwellhâd Buan

Dymunwn wellhâd buan i Gareth Hughes, 92 Maes y Deri, Talybont sydd wedi bod yn Ysbyty Treforus, ond sydd wedi dod adre erbyn hyn.

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

O s ewch chi heibio Oriol y Bont, Stryd y Bont, Aberystwyth, fe welwch arddangosfa luniau o waith Rwth Jên. Lluniau bychain ydynt, ac ym mhob llun mae tair menyw fach yn eu gwisgoedd Cymreig, weithiau'n sipian têt, dro arall yn dadlau neu'n myfyrio neu'n chwifio'u breichiau o gwmpas y lle.

Beth wnaeth i Rwth ddilyn y trywydd yma? Mae hi'n byw yn Nhalybont, mewn ardal ble bu'r diwydiant gwlân mor bwysig, ac mae wedi ymchwilio i'r hanes lleol. Hefyd denwyd hi â phatrymau brethyn diddorol a welodd yn ffatri wllân Drefach Felindre.

Daeth hyn â hi at y syniad o fenywod Cymru yn gwisgo dillad brethyn o wead cartref. Cymru yw'r unig wlad ym Mhrydain sydd â gwisg gwblw draddodiadol a honno wedi datblygu'n uniongyrchol o'r dillad a wisgid gan y werin bobol.

Ond fe ddatblygodd y wisg er mwyn apelio at dwristiaid. Bu addasu a moderneiddio ar y dillad. Weithiau gwelech siol sidan o'r dwyrain gyda phatrymau celfydd, neu ychwanegid llawer o ffrils a chotwm a lês. Er na welsai'r twristiaid neb go iawn yn gwisgo'r dillad hyn yng Nghymru, roeddynt wrth eu bodd yn prynu doliau a chardiau gyda lluniau o

Ladis Bach y Pentre



Llun: Ceri Jones

fenywod bach bochgoch yn gwisgo het a bodcyn. Ai ffotograffwyr o gwmpas gyda phēcyn parod o ddillad a thynnu lluniau gwahanol fenywod yn gwisgo'r un dillad er mwyn dangos eu hunain i'r camera.

Byddai siopau megis Woolworth yn gwerthu pecynnau parod 'Gwisg Gymreig' i blant bach Cymru gael eu gwisgo

ar Ddydd Gwyl Dewi. Math o sidan ffug oedd y rheini gyda phob un yn union yr un fath. Portread ffug a chopi gwael o'r wisg gyntefig oeddynt, yn rhoi'r syniad na allai'r ladis bach Cymreig wneud dim ond yfed têt, gwau a chloncan drwy'r dydd.

Mae Rwth wedi trawsnewid y syniad henffasiwn yma. Ymhlith y delweddau a

greodd mae doliau bach gyda sgeret fawr lydan i guddio rholyn o bapur têt bach. Os edrychwch chi'n fanwl ar ei lluniau fe welwch nad yw Rwth yn gallu ymatal rhag dod ag elfennau doniol i mewn. Pob hwyl i Rwth gyda'r cyfeiriad newydd yma yn ei gwaith. Unwaith eto mae hi'n profi pa mor agos yw Cymreictod a gwreiddioldeb.

Mae Hon ar Fap!

'Beth yw'r ots gennyf i am Gymru? Damwain a hap

Yw fy mod yn ei libart yn byw. Nid yw hon ar fap . . .'

Mae'n siŵr bod y rhan fwyaf o ddarllenwyr Papur Pawb yn hen gyfarwydd â llinellau agoriadol y soned 'Hon'. Ond er cymaint diddordeb T.H. Parry-Williams mewn dyfeisiadau technolegol newydd, go brin iddo ddychmygu ar y pryd pa mor wahanol fyddai natur a chynnwys mapiau digidol ein dyddiau ni.

Yn ddiweddar fe gyhoeddodd cwmni Google fap ar y We sy'n dangos strydoedd ac adeiladau unigol ar hyd a lled y Deyrnas Gyfunol.

Cyflawnwyd y gamp hon trwy anfon cerbydau pwrpasol i bob twll a chornel, bron, gan dynnu lluniau digidol [gweler <http://maps.google.co.uk/>]. O ganlyniad mae gennym bellach gofnod darluniadol o ran helaethaf ardal Papur Pawb ar un bore braf yn haf 2009. Bydd manylder yr wybodaeth ar y safle o ddefnydd mawr i bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Ond mae'r map hefyd yn dangos bod o leiaf un o drigolion Tal-y-bont, sef Aileen Williams, Maesmeillion, wedi manteisio ar y tywydd teg prin a gafwyd y llynedd i eistedd ar gadair haul o flaen y tŷ yn darllen Papur Pawb. Dyna beth yw gadael eich marc ar y Byd!!



**Theatr
Genedlaethol
Cymru**

yn cyflwyno dwy ddrama fer

**'Dau. Un. Un. Dim', gan Manon Wyn
&**

'Yn Y Trên', gan Saunders Lewis

Cyfarwyddwr: Betsan Llwyd
Actorion: Rhodri Meilir & Lowri Gwynne

**Nos Iau 13 Mai 2010 a
Nos Wener 14 Mai 2010**

Yn

Pafiliwn Cenedlaethol Cymru, Pontrhydfendigaid

Bydd bysiau yn cael eu trefnu o ardal Aberystwyth

I archebu tocynnau a lle ar y bws cysylltwch â 01974 831635

I gael gwybodaeth am weddill y daith, ewch i

www.theatr.com

Diwrnod Maes y Sir

Cynhaliwyd Diwrnod Maes y Sir ym mart Tregaron eleni eto, a chafwyd diwrnod llawn cystadlu o safon uchel iawn. Dyma'r canlyniadau:

Effeithlonrwydd a diogelwch - 1af Troedyraur; Ffensio - 1af Llanddeiniol; Sialens ATV - 1af Troedyraur; Tîm Stocmon Hŷn - 1af Talybont; Tîm Stocmon Iau - 1af Llanwenog; Taith natur iau - 1af Caerwedros; Diogelwch iau - 1af Llanwenog.

Llongyfarchiadau i Geraint Jenkins, Talybont a Rhys Lloyd Jones, Llanddewi Brefi am ennill gwobrau'r stocmyngorau.

Hefyd, cynhaliwyd cystadleuaeth newydd i'r sir eleni, sef Arddangosfa Sirol, lle roedd angen creu 5 eitem o grefft i bortreadu sir Ceredigion. Rhoddodd 9 clwb gynnog ar y gystadleuaeth, a llongyfarchiadau i glwb Llangeitho am ddod yn fuddugol.

Aelod hŷn - Lowri Jones, Caerwedros

Aelod iau - Megan Lewis, Trisant.

Llanwenog ddaeth i'r brig ar ddiwedd y diwrnod - da iawn chi!

Codi arian

Y diwrnod canlynol, bu criw o swyddogion y sir a rhai aelodau eraill yn cerdded llwybr yr arfordir, o swyddfa'r C.Ff.

I. yn Aberaeron lan i safle'r rali eleni yn Llanrhystud. Ar ôl mynd trwy sawl pwdd o fwd a chroesi sawl afon, daeth pob un ohonom i ddiwedd y daith yn saff, gan godi arian at elusen C.Ff.I. Cymru eleni, sef Sefydliad Aren Cymru, ar yr un pryd.

Diwrnod Maes Cymru

Yn dilyn eu llwyddiant yn Nhregaron, aeth rhai aelodau ymlaen i gynrychioli'r sir yn Llanymddyfri, a dyma'r canlyniadau:

Tîm Stocmon Hŷn yn 2il, gyda Menna Davies yn 2il fel unigolyn; Arddangosfa Sirol yn 3ydd; Sialens Natur Iau yn 2il, a llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cynrychioli'r sir, am i Geredigion ddod i'r brig ar ddiwedd y cystadlu!

Gala Nofio

Llongyfarchiadau i glwb Pontsian am ddod yn fuddugol yng ngala nofio'r sir a gynhaliwyd yn Aberaeron yn ddiweddar. Cafwyd cwpan newydd eleni am y nofiwr cyflymaf o bob cystadleuaeth, ac aeth y cwpan hwn i Emlyn Lewis o glwb Pennant. Diolch yn fawr i Alison Jones, clwb

FFERMWYR IFAINC

Llanddewi Brefi, am roi'r cwpan yn rhodd i'r sir.

Ymlacio

Daeth cyfle i ymlacio a mwynhau ar ôl dechrau prysur i'r flwyddyn, pan aeth 10 aelod o'r sir ar wyliau i Benidorm yn ystod gwyliau'r Pasg! Cafwyd gwyliau arbennig, a daeth pawb yn ôl wedi dal ychydig o liw haul....rhai yn fwy pinc na'i gilydd! Wedyn daeth hi'n gyfle i aelodau hŷn y sir fwynhau ar ddydd Sul y Pasg yng nghwmni aelodau clybiau eraill, ac roedd pawb wedi mwynhau mas draw!

Cinio'r Cadeirydd

Cafwyd noson lwyddiannus iawn yng ngholeg Llambled, lle bu tua 120 o aelodau, cyn-aelodau a ffrindiau'r sir yn cefnogi noson Cadeirydd C.Ff.I. Ceredigion eleni a llynedd, sef Arwel Jones a Daniel Downes. Roedd pawb wedi mwynhau codi arian i'r sir trwy gael sbri yn y rasyd moch!

C.Ff.I. Ceredigion yn dathlu ei ben-blwydd yn 70 oed!

Mae trefniadau ar y gweill i drefnu'r rhaglen o ddigwyddiadau a fydd yn cael

eu cynnal flwyddyn nesaf ar gyfer ben-blwydd y sir. Bydd gweithdy arbennig yn cael ei gynnal yn Theatr Felinfach ar 17 Tachwedd eleni, lle bydd aelodau, cyn aelodau a ffrindiau'r mudiad yn dod at ei gilydd i gasglu syniadau am y sioe ddathlu. Mae croeso i bawb i'r digwyddiad hwn!

Clwb 200

Dyma enillwyr mis Ebrill:

Mrs H M Davies, Maesronw, Bangor Teifi, Llandysul; David a Jayne Jones, Pantlleinau, Bontnewydd, Aberystwyth; Rhun a Ceris Fychan, Penwern, Cilcennin, Llambled.

Dyddiadau i'r dyddiaduron

22 Mai - Rali'r Sir - Llanddeiniol

5 Mehefin - Gig ar y cyd gyda Phwyllgor Ieuencid yr Urdd yng Nghlwb Rygbi Aberaeron, gydag Elin Fflur a Fushanti.

11 Mehefin - Rygbi 7 bob ochr y sir - Clwb Rygbi Aberaeron

19 Mehefin - Chwaraeon y sir - Llambled (gyda dawns i ddilyn)

25 Mehefin - Tynnu'r Gelyn - Clwb Rygbi Aberaeron.

Ŵyn Hyrddod yn Cystadlu

Dydd Iau 5ed. Tachwedd oedd dyddiad cychwyn arbrawf ŵyn hyrddod Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig Ceredigion. Daeth 17 o aelodau a 39 o hyrddod i'r Prawf, a daeth hwn i ben Ddydd Iau 15fed. Ebrill, yn Ffald Penpompren, Talybont. Y pwrpas yw ceisio gwella cynnyrch y ddafad Gymreig drwy ddewis yr ŵyn hyrddod mwyaf addas ar gyfer y dyfodol. Mae swyddogion Hybu Cig Cymru yn pwyso'r hyrddod ar ddechrau ac ar ddiwedd y Prawf, ac yn defnyddio dull arbennig i gael indecs, gan roi pwyslais ar gyhyr (50%), tyfiant (30%) a brasder (20%). Roedd yr indecs uchaf yn 145, efo hwrdd Glyn Rowlands, Frondeg, Penrhyncoch.



Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail, Llywydd y Gymdeithas, yn cyflwyno Cwpan Rumenco i Ceredig Lewis, Trefaes Uchaf, Llangwryfyon, ar y chwith, a Glyn Rowlands, cadeirydd CAMP, Pwllpeirian, y ddau'n dal yr hyrddod ddaeth yn gydradd gyntaf.

Ar y dde: Dewi Hughes, swyddog efo H.C.C. yn cyflwyno cwpan H.C.C. am yr indecs uchaf i Tomos Hulme, yn dal hwrdd Glyn Rowlands, gyda aelodau'r Gymdeithas yn y cefndir.

I ddewis Pencampwr i dderbyn Cwpan Rumenco, mae pob aelod sydd yn cefnogi'r prawf, yn cael pledleisio, a rhoi 3 pwynt i'r gorau, 2 i'r ail ac un i'r trydydd. Y canlyniad oedd i hwrdd John Lewis, Trefaes Uchaf, Llangwryfyon, tag rhif 26, a hwrdd CAMP, Pwllpeirian, tag rhif 4639 ddod yn gydradd, efo 27 pleidlais yr un. Pasiwyd i'r ddau fuddugol gael cadw'r cwpan am chwe mis yr un.

Roedd yr hyrddod wedi gaeafu'n reit dda i gyd, a chysidro'r gaeaf caled a gafwyd.

Gareth Evans

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Tallesin, MACHYNLLETH
Pwys: 5120 810 Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Dosbarth Ioga yn mynd o nerth i nerth

Mae'r dosbarth Ioga sy'n cael ei gynnal yn Neuadd Tal-y-bont ar nos Fawrth (yn ystod tymor ysgol), wedi cwrdd ers tair blynedd. Cychwynwyd y dosbarth gan y gangen leol o Ferched y Wawr ond erbyn hyn mae'r dosbarth yn agored i bawb. Yn wir mi fyddai yn braf cael rhagor o ddynion i ymuno a'r un dyn dewr sydd eisoes wedi mentro. Yn 2007 lleolwyd y dosbarth yn festri Rehoboth, Taliesin, yna symud i ysgol Tal-y-bont cyn setlo yn barhaol yn y Neuadd. Ein hathrawes yw Sue Jones Davies, cyn actores, athrawes a Maeres Aberystwyth sydd wedi cymhwyso fel athrawes gyda'r 'British Wheel of Yoga.' Mae wrth ei bodd yn cael y cyfle i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

System o athroniaeth yn wreiddiol o'r India 5,000 o flynyddoedd yn ôl yw Ioga, ac mae'n cynnig cyflwyniad cyfannol i'r corff, y meddwl a'r ysbryd trwy roi'r modd i ni ddelio a sialensiau dyddiol bywyd. Fel arfer mae'r dosbarth yn cynnwys sesiwn 10-15 munud o gynhesu'r cyhyrau a'r cymalau



ac ymarferion anadlu syml. Dilyniir hyn gan waith penodol ar ystumiau/safiadau gwahanol. Mae'r ymarferion ioga hyn yn cryfhau a thonio'r corff er mwyn gwella'r rhediad ynni - gan reoli'r systemau corfforol a'r anadl a thawelu'r meddwl ar gyfer myfyrdod. I orffen y dosbarth ceir 10 munud o ymlacio'n llwyr trwy orwedd yn 'savasana' ar y cefn. Diben yr ymarferion ioga (asana) yw nid pa mor bell yr ydych yn gallu ymestyn neu wyrdroi'r corff, ond i gyfuno sadrwydd (sitra) y

corff yn rhwydd ac ymlaciedig.

Rhaid gweithio'r anadl a'r symudiadau gyda'i gilydd er mwyn cael y gorau o'r ymarferion. Dyma i chi rhagflas o'r dosbarth. Ymunwch gyda ni i gadw'r corff yn ystwyth. Mae croeso cynnes i bawb. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Ann ar 832967

**Cyngor Cymuned
Ceulanamaesmawr**

**Cynhelir
Cyfarfod Blynnyddol
y Cyngor yn
Neuadd Goffa Tal-y-bont
Nos Lun 24 Mai 2010
Am 7.30 pm**

Croeso cynnes i Bawb!

Merched y Wawr

Ein gwestai ar Nos Lun, Ebrill oedd yr awdures doreithiog, Meleri Wyn James. Clywsom sut y dechreuodd ysgrifennu pan yn ifanc iawn. Soniodd am ei diddordebau a'r syniadau a gaiff dim ond wrth iddi edrych o'i chwmpas a gwrandao! Daeth a chasgliad o'i llyfrau niferus gyda hi, llawer iawn ar gyfer plant ynghyd a nofelau ar gyfer oedolion ifanc! Diolch i'r Academi am noddi'r noson.

Ar 17 Mai byddwn yn gadael Tal-y-bont ac yn teithio i ymweld a Maes Glasau, ger Dinas Mawddwy ac yna'n cael swper yn y Llew Coch cyn troi am adre.

Ymdrech dros Amnest



Ddiwedd mis Mai, bydd Jules Montgomery o Bontgoch a Jenny Williamson o Borth yn seiclo yn Sialens Seiclo Arfordirol Amnest Rhyngwladol. Dyma'r sialens seiclo gyntaf i 'w threfnu yn benodol ar gyfer aelodau Amnest, ac mae'n cychwyn ar benblwydd Amnest sef Mai 28. Bydd llawer o'r daith yn dilyn y llwybr Sustras C2C (ychydig i'r de o fur Hadrian). Mae Sustras ei hun yn elusen sy'n hyrwyddo'r syniad o gael llwybrau diogel i feicwyr, ac mae'n annog gwaith ar brosiectau ymarferol i annog pobol i ddefnyddio

teithio cynladwy. Byddant yn seiclo 150 milltir mewn tri diwrnod, ac mae Jules a Jenny yn gobeithio casglu £1,500 i Amnest Rhyngwladol. Os ydych am noddi'r ddau gallwch ymweld a'u gwefan: www.justgiving.com/Jules-Montgomery.

S. F. BYRNE
Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068

M: 077626 20309

Gwneir pob math o waith



Bydd Arddangosfeydd Cyhoeddus ar ddatblygiad
Fferm Wynt Nant y Moch
yn cael eu cynnal ar

Dydd Mercher 16 Mehefin 2010 – 3yh – 8yh:
Neuadd Penrhyn-coch

Dydd Iau 17 Mehefin 2010 – 3yh – 8yh:
Y Plas, Machynlleth

Dydd Gwener 18 Mehefin 2010 – 3yh – 8yh:
Neuadd Goffa Tal-y-Bont

Dydd Sadwrn 19 Mehefin 2010 – 10yb – 2yh:
Neuadd Capel Bangor

Croeso cynnes i bawb. Cyfle i wybod mwy am y cynllun.

www.ffermwyntnantymoch.com

Estynnodd y Cyngorydd Megan Mai groeso cynnes i'r aelodau a fynychodd y cyfarfod nos Lun 26 Ebrill.

Dosbarthwyd taflen ddrfft yn annog y trigolion hynny sy'n byw ar bwys y ffordd fawr i osod baneri a byntin i groesawu ymwelwyr i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhelir yn Llanerch-aeron ddiwedd Mai a dechrau Mehefin. Cytunodd y Cyngorwyr fod cynnwys a chynllun y daflen yn briodol ac mai'r amser gorau i'w dosbarthu fyddai'r wythnos yn dechrau ddydd Llun 10 Mai. Adroddodd y Cyngorydd Emyr Davies fod y gwaith o ledu a sythu'r gornel waethaf ar y ffordd rhwng Cwmere a Bont-goch ar fin cael ei gwblhau a chytunwyd y bydd yn welliant mawr o safbwynt diogelwch.

Cadarnhawyd argymhellad Is-bwyllgor y Fynwent a gynhaliwyd ar 12 Ebrill i godi'r taliadau claddu o 25% dros y cyfnod o Hydref 2010 hyd ddiwedd Medi 2014. Cadarnhawyd argymhellad yr is-bwyllgor i wahodd tendrau newydd ar gyfer Cynnal a Chadw'r fynwent o 1 Ebrill 2011, a chytunwyd y dylai'r tendr hefyd gynnwys y gwaith o gynnal a chadw'r Patshyn Glas, y Cae Bach a'r Maes Chwarae.

Newyddion o'r Cyngor

Anfonir y gwahoddiadau tendro newydd allan ym mis Ionawr 2011.

Derbyniwyd llythyr gan y Comisiwn Seilwaith Cynllunio (yr IPC) i egluro bod SSE Renewables wedi cysylltu â nhw yn holi eu barn ynglŷn â'r wybodaeth y dylent ei darparu mewn datganiad amgylcheddol ar broiect Nant y Moch. Mae'r Comisiwn yn ei dro wedi cysylltu â'r Cyngor Cymuned, fel un o'r cyrff y byddant yn ymgynghori ag ef pan gyflwynir y cais cynllunio, yn ein gwahodd i gyflwyno unrhyw sylwadau ar yr wybodaeth y dylid ei chynnwys yn y datganiad amgylcheddol. Cytunwyd i ddosbarthu copïau electronaidd o'r Adroddiad Cwmpasu i'r aelodau ac anfon unrhyw sylwadau ymlaen at y Comisiwn erbyn 14 Mai.

Rhwng 7 Mai a 28 Mai mae Awdurdod Cynllunio Ceredigion yn bwriadu cynnal ymgynghoriad anffurfiol byr

ychwanegol ar y Safleoedd Posib a Dyrannu Grwpiau Aneddiadau fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol. Cytunodd y Cyngorwyr Ellen ap Gwynn a Megan Mai a'r Clerc i fynychu'r cyfarfod a drefnir gan yr Awdurdod parthed hyn. Byddant yn adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

Cafwyd adroddiad cryno gan y Cyngorydd Eric Roberts ar ymweliad aelodau Bwrdd Tai Ceredigion Cyf â stad Maes-y-deri yn ddiweddar. Roedd y cyfarfod safle yn un adeiladol iawn a rhoddwyd cyfle i rai o'r trigolion godi materion gyda swyddogion y Bwrdd. Disgwylir adroddiad pellach ar nifer o welliannau a chynlluniau i ddatblygu'r stad i'r dyfodol. Cafwyd sicrwydd gan aelodau'r Bwrdd y rhoddir blaenoriaeth i wella'r ddarpariaeth parcio a mân welliannau eraill. Hefyd cafwyd sicrwydd y byddai ymgynghori pellach â'r trigolion ac aelodau o'r Cyngor

Cymuned.

Yr unig geisiadau cynllunio oedd rhai i ddargyfeirio dau lwybr cyhoeddus yn dilyn arolwg diweddar fel rhan o gynllun Llwybrau Cymunedol Ceredigion – sef llwybr rhif 6/6 o Ty'ngraig i Fedd Taliesin a llwybr rhif 6/79 o Foelglomen i Fwlch y Maen. Cytunwyd i gefnogi'r ddau gais fel gwelliannau i'w croesawu.

O dan unrhyw faterion eraill adroddwyd bod sbwriel wedi cael ei adael yn chwael Fronlas yn ddiweddar. Derbyniwyd cwyn hefyd nad oedd y biniau sbwriel ar y Patshyn Glas ac ar bwys y Cae Bach yn cael eu gwagio'n gyson. Cytunwyd i anfon llythyr at yr Adran Prifffyrdd, Eiddo a Gwaith yn tynnu sylw at y ddau fater. Adroddwyd bod oedolion yn parhau i ddod â chŵn i mewn i'r Cae Bach, a chytunwyd i osod arwyddion mwy o faint yn gwahardd cŵn oddi yno.

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

CYFARFOD CYSTADLEUOL

Cynhaliwyd Cyfarfod Cystadleuol yn festri Rehoboth, Taliesin ar nos Wener, 9 Ebrill. Y beirniad eleni oedd Mr Rheinalt Llwyd, Aberystwyth ac fe'i croesawyd gan Bob Williams. Cafwyd noson hwyliog wrth i'r beirniad draethu ei feirniadaeth ar y gwahanol gystadlaethau. Diolch i'r chwirydd a fu'n paratoi'r te a'r lluniaueth i gloi'r noson.

Dyma'r canlyniadau:

Brawddeg o'r gair 'Ceredigion'

1. Carys Briddon

2. Non Griffiths

3. Carys Briddon

Traethawd neu Ysgrif: 'Cors Fochno'

1. Carys Briddon

2. Mai Leeding

Hunangofiant 'Hen Esgid'

1. Carys Briddon

2. Mai Leeding

Gorffen Limrig

1. Carys Briddon

2. Wyn Thomas

3. John Leeding

Cynllunio Carden Cyfarch

1. Mai Leeding a Beti Wyn Davies

2. Beti Wyn Davies

Stori Fer

1. John Leeding

Telyneg: 'Y Gaeaf'

1. Carys Briddon

Llawysgrifen

1. Carys Briddon

2. Myfanwy Rowlands

Adrodd cerdd gan fardd o Geredigion

1. Non Griffiths, Eirlys Jones, Mai Leeding, Bob Williams

Darllen darn heb ei atalnodi

1. Carys Briddon

2. Non Griffiths a Judith Morris

3. Bob Williams ac Eirlys Jones

Dyfalw beth sydd yn y sach

1. John Leeding

2. Bob Williams ac Eirlys Jones

3. Mai Leeding a Non Griffiths

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@ylolfa.com



Nos Fawrth, Ebrill 28ain daeth Cwmni'r Morlan i ymweld â Chapel Bethel, Talybont gyda'r sioe 'Tomos, Damien ac Arianwen Wen.'

Sioe ysgyrtwol oedd hon. Pigo cydwylbod y gynulleidfa oedd y bwriad drwy gyferbynu tlodi eithafol India a Bangladesh gyda'r cyfoeth a'r hawddfyd rydyn ni'n ei fwynhau heddiw.

Eirian Evans a'r Parch Eifion Roberts oedd yn cyflwyno'r actorion a'r sefyllfaoedd, gyda Morus Gruffudd yn portreadu Damien Willis o Tunbridge Wells. Ef oedd y dyn cyfoethog oedd yn gwerthu cynnyrch gwledydd y trydydd byd i Brydeinwyr. Delio mewn defnyddiau lledr yr oedd ef heb falio dim fod plant bach mor ifanc â phump oed yn gweithio mewn ffatrioedd er mwyn cynhyrchu esgidiau rhad i siopau yn ein gwlad ni.

Roedd Deian Creunant yn portreadu'r dyn canol yn y stori, mewn gwisg hynod liwgar ac addas i'r sefyllfa. Roedd e'n twyllo cwsmeriaid Prydeinig rywsut neu gilydd fod popeth yn iawn yn y trydydd byd, a bod y tlodion druan yn dysgu crefft, yn cael eu haddysgu a'u bwydo

Neges Amserol o'r Morlan



drwy'r ffatrioedd afiach hyn.

Cawsom Gwenan Creunant ac Elin Haf yn portreadu dwy ddynes dra gwahanol yn ymdrechu'n ddewr i gasglu arian tuag at achosion dyngarol megis cyflafan Haiti, ac yn codi nifer o gwestiynau, tybed ydyn ni bob amser yn gwneud y

gweithredoedd clodwiw hyn am y rhesymau cywir.

Geraint Evans oedd y cynhyrchydd, yn cael ei gynorthwyo gan Bethan Bryn ar yr ochor gerddorol ac Alun Morus a oedd yn gyfrifol am bortreadu llawer o olygfeydd erchyll o

wledydd y trydydd byd ar y sgrin fawr a osodwyd ar y pulpud. Dangosai'r lluniau y dioddef a'r anghyfartaledd sy'n bodoli yn ein byd y dyddiau hyn.

Diolchodd Gwilym Huws a Medi James i'r cwmni. Casglwyd £104 ar gyfer Cymorth Cristnogol, Apêl Tal-y-bont.

MID WALES STORAGE

STORFA CANOLBARTH CYMRU

STORFA DODREFN



STORFA FUSNES ARCHIFAU



STORFA I FYFYRWYR



PACEDU



DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR
CCTV
WEDI GYNHESU
CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS

www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll
Machynlleth
SY20 8BQ

Tel 01654 703592

Darganfod Dyfi


Estynnir gwahoddiad i drigolion ardal *Papur Pawb* fynychu un o gyfres o ddigwyddiadau ymgynghorol a drefnir gan Grŵp Llywio Prosiect Darganfod Dyfi. Yn ddiweddar, derbyniodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru – mewn partneriaeth â nifer o gyrff eraill, yn cynnwys Cyngor Sir Ceredigion a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru – grant gan Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol y Gymuned Ewropeaidd i hyrwyddo cyfres o lwybrau troed a llwybrau amlddefnydd o fewn ardal Biosffer Dyfi fel rhan o gynllun ehangach Cymunedau a Natur. Mae'r prosiect hefyd yn cynnwys darparu cyfleoedd i ddathlu treftadaeth leol, cefnogi pobl i ddefnyddio'r hawliau tramwy presennol mewn ffordd gyfrifol, a denu ymwelwyr i'r ardal i gefnogi busnesau lleol.

Mae'r Grŵp Llywio wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau 'galw heibio' sy'n agored i bawb.

Cynhelir tri o'r rhain o fewn ardal *Papur Pawb*: Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach ddydd Llun 24 Mai, 2 i 7 o'r gloch; Neuadd Goffa Tal-y-bont ddydd Mawrth 25 Mai, 2 i 7 o'r gloch, a Llanfach, Taliesin ddydd Iau 27 Mai, 2 i 6.30 o'r gloch.

Bydd mapiau manwl o bob ardal ar gael yn y digwyddiadau hyn a chyfle i bobl wneud sylwadau arnynt, yn ogystal â chynnig dulliau eraill o ddatblygu'r cynllun.

CODI Tŷ NEU ESTYNIAD?



Iwan Jones, Technegydd Pensoerniol
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
01970 832760

Awudron lleol yn brysur!

Y cenfigen a'r ffræo yn dilyn codi fferm wynt yw cefndir ail nofel Geraint Evans. Mae'n dilyn **Y Llwybr** a gyhoeddwyd union flwyddyn yn ôl. Stori dditectif arall yw hi, yn dechrau mewn cyfarfod mewn neuadd lle mae'r cyhoedd yn pleidleisio ynglyn â datblygiad fferm wynt Hyddgen... Dyma adolygiad arbennig i Papur Pawb.

Wedi cael blas ar ddarlenn nofel gyntaf Geraint Evans, sef **Y Llwybr**, roeddwn yn edrych ymlaen yn eiddgar at gael darllen yr ail, sef **Llafnau**, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Wasg y Lolfa. Yn sicr, ni chefais fy siomi.


Nofel dditectif yw hon sydd wedi ei lleoli yng nghefn gwlad y Geredigion gyfoes. Yn gysgod y tu ôl i holl ddigwyddiadau'r nofel y mae ymgais Martin Thomas, perchennog tir lleol, a'i gefnogwyr, i ddatblygu fferm wynt enfawr uwchben pentref Esgair Goch. Pan gaiff Martin Thomas ei lofruddio ar y ffordd adref o gyfarfod cyhoeddus tanbaid ynglŷn â'r melinau yn neuadd y pentref, daw i'r amlwg nad datblygiad busnes lleol syml oedd hwn o gwbl, a bod sawl bys arall yn y brywes.

Yn ystod yr ymchwiliad sy'n dilyn, caiff Inspector Gareth Prior, y Ditectif Meriel Davies a'r Ditectif Gwnstabl Clive Akers, eu tywys o ffermydd bach cefn gwlad Ceredigion i fyd cwmnïau rhyngwladol y Swistir, o fyd blacmel i fyd gwleidyddion llwgr yn y Cynulliad, cyn i'r uchafbwynt ddod â'r tri yn ôl i'r filltir sgwâr gyda chanlyniadau annisgwyl a thrychinebus.

Mae'r nofel yn llifo'n rhwydd ac yn cynnwys digon o droeon annisgwyl i gadw'r darlennydd yn y tywyllwch am y gwir reswm dros lofruddiaeth Martin Thomas tan y diwedd un. Roedd hi'n braf hefyd cael cyfarfod unwaith eto â'r tri phrif gymeriad o'r nofel gyntaf, sef Gareth, Mel, ac Akers, ac i ddysgu mwy am eu hanes a'u cefndir wrth i'r stori ddatblygu.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf prin iawn yw'r nofelau dditectif a gyhoeddwyd yn y Gymraeg. Mae'n braf gweld awdur lleol yn llenwi'r bwlch hwn yn y farchnad mor llwyddiannus. Edrychaf ymlaen at y nofel nesaf!

DH




Alun yr Arth a'r Het Wirion

Awdur ac arlunydd arall talentog, lleol yw Morgan Tomos, sy'n gyfrifol am y gyfres hynod boblogaidd i blant bach, **Alun yr Arth**. Mae Alun yn gymeriad hoffus ac yn y llyfr diweddaraf – y ddeuddegfed yn y gyfres – caiff Alun ei orfodi gan ei rieni i wisgo het liwgar, ryfedd nad yw'n ei hoffi. Fodd bynnag, mae Alun yn cael cyfle i dalu'r pwyth yn ôl.

Meddai Morgan, "Fel rhiant dwi'n gwybod pa mor hurt rydym yn gallu bod yn gorfodi plant i wisgo dillad gwirion a chredu celwydd amlwg. Mae'n hen bryd i Alun yr Arth roi stop ar y loll!"

Daw Morgan o Gaernarfon. Fe'i hyfforddwyd fel animeiddiwr ac mae'n gweithio yn Y Lolfa fel hyrwyddwr llyfrau.



Diolch i waith awdur lleol arall, fe fydd darlennwyr Cymraeg, am y tro cyntaf erioed eleni, yn gallu paratoi ar gyfer **Cwpan y Byd** gyda llyfr gwreiddiol sydd mor ddeniadol ag unrhyw beth a geir yn Saesneg.

Gwyn Jenkins o Dalybont sy'n gyfrifol am destun **Cwpan y Byd 2010**, gydag Elgan Griffiths, sy'n byw yn lleol yn Nhaliesin, yn gyfrifol am y dylunio. Mae'r llyfr yn rhoi gogwydd annibynnol, Cymreig i'r ornest anferth sy'n dechrau yn Ne Affrica o ganol Mehefin

ymlaen. Mae'r llyfr yn cynnwys lluniau gwych gan y Press Association – peth a wnaed yn bosibl gan nawdd arbennig gan y Cyngor Llyfrau.

Yn ôl Lefi Gruffudd o wasg Y Lolfa: "Mae'n wych o beth gallu comisiynu llyfr gwreiddiol ar gyfer **Cwpan y Byd** gydag awdur a dylunydd o safon mor uchel. Mi fydd yn edrych gystal ag unrhyw beth mewn unrhyw iaith. Mae'n dda fod y testun hefyd yn cynnwys cyfeiriadaeth Gymreig a safbwynt gwahanol i'r holl ddeunydd unlygeidiog a welir yn y wasg Saesneg."

Fe fydd y llyfr newydd o gymorth i bawb sydd am bwysio a mesur yr holl wledydd a'r sêr fydd yn cymryd rhan yn yr ornest. Mae'n llawn ffeithiau, yn cynnwys holl fanylion y gemau, lluniau gwych o'r chwaraewyr, rhagair gan John Hartson, a hefyd siart am ddim.

Cyhoeddodd yr awdur, Gwyn Jenkins, y llyfr Cymraeg cyntaf i blant ar bêl-droed, sef **Gôl** (Y Lolfa 1980) a dyma gyfrol arall a fydd yn hanfodol i gefnogwyr gêm fwyaf poblogaidd y byd. Gwyn oedd hefyd golygydd **Llyfr y Ganrif**. Lanswyd y llyfr yn y Fedwen Lyfrau yn Llanrwst.



Geraint Evans, awdur **Llafnau**, gyda Meinir Edwards, golygydd y gyfrol

Llangynfelyn YSGO



Diogelwch y ffordd

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dysgu am diogelwch y ffordd y tymor yma wrth gymeryd rhan ym mhrosiect Kerbcraft. Maent yn cael gwersi wythnosol ar sut i groesi'r ffordd yn ddiogel.

Gorsaf Radio Llangynfelyn

Daeth Marci G o Radio Cymru i weithio efo Blwyddyn 5 a 6 yn ddiweddar i greu gorsaf radio i'r ysgol. Cafodd pawb hwyl yn siarad a chyfleu syniadau ar gyfer yr orsaf.

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Gymnasteg

Yn dilyn llwyddiant ysgubol yr ysgol yng nghystadlwau yr Urdd yn ddiweddar, mae disgyblion CA2 yn cael hyfforddiant gymnasteg ychwanegol yn wythnosol gyda Mr Islwyn Rees o Ysgol Gymnasteg "Rees" sydd wedi ei sefydlu yn Llambod ac Aberaeron.

Canolfan Anifeiliaid Anwes

Bu dosbarth y Cyfnod Sylfaen yn siop y Ganolfanme yn Aberystwyth yn ddiweddar. Bu'r plant yn dysgu am wahanol anifeiliaid anwes a dewiswyd mochyn cwta bach fel anifail anwes i'r dosbarth. Gobeithiwn fydd Liwsi y mochyn cwta yn hapus yn y caban gyda dosbarth Mrs Nelmes – gweler y llun islaw.

PC Lloyd

Bu PC Lloyd yn sgwrsio â dosbarth CA2 ar ddechrau'r tymor ynglŷn ag alcohol a diogelwch y ffordd.



Pêl-droed yr Urdd

Bu'r tîm bechgyn a'r tîm merched yn cystadlu yng nghystadlwau yr Urdd yn ddiweddar. Er i'r 2 dîm chwarae yn dda iawn ni lwyddodd un o'r tîmau fynd trwodd i'r rownd derfynol. Da iawn chi am gystadlu. Dyma lun o'r tîm.



Amgueddfa Wlân

Bu CA2 i'r amgueddfa wlân yn dysgu am y diwydiant a hefyd yn ffeltio. Dysgwyd llawer am y diwydiant hanesyddol yma.

Os am dacs neu fws mini

**CAMBRIAN
CABS**

Teithiau Pell ac Agos
01970 626292

Ble yn y Byd?

Sut i chwarae

Ble yn nalgylch Papur Pawb mae'r llun yma wedi ei dynnu?

Ateb

Enw

Cyfeiriad

Côd Post _____ **Rhif ffôn** _____

Atebion i Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont erbyn 4 Mehefin.
Gwobr: **Tocyn Llyfr gwerth £10** i'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.
Yr ateb tro diwethaf: Tŵr Eglwys Dewi Sant, Tal-y-bont.
Enillydd: Rhys Huw Evans, Uwch y Nant, Borth.



LION Tal-y-bont

Penwythnos yn Llangrannog



Treuliodd 18 o blant B4, 5 a 6 benwythnos yng ngwersyll yr Urdd, Llangrannog rhwng 23 - 25 Ebrill. Dyma sylwadau rai o'r plant a fu yno.

Fy hoff weithgaredd oedd gwiwgartio - Ashleigh

Fy hoff weithgaredd oedd ceirt modur. Mi wnes i grashio 5 gwaith! Lecsi.

Roedd y buyd yn Llangrannog yn flasus iawn ac roeddwn i'n gallu mynd lan i nol mwy - Aled

Roeddwn i wedi mwynbau sgio - Emily

Roedd pob gweithgaredd yn hwyl a fy hoff weithgaredd oedd ceirt modur. Wnes i ddim crashio! - Harri

Fy hoff weithgaredd oedd trampolinio. - Joe

Roedd Llangrannog yn hwyl ac roedd popeth yn dda iawn. Roedd y stafelloedd yn lân a chynnes. - Celyn

Fy hoff weithgaredd oedd y beiciau modur achos roedd i'n mynd yn gyflym! - Gemma

Gwydion Jones
Gwaith Haf
torri gwafr, paentio a.a.
Mehefin - Medi
01970 832760
07540 276181



Pen-blwydd

Bum yn dathlu pen blwydd arbennig iawn yn yr ysgol yn ddiweddar. Cawsom gacen blasus wrth ddymuno pob dymuniad da i Mrs. Jones y gegin wrth iddi droi'n 60 mlwydd oed. Dyma ni yn y llun uwchben.

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Ysgol Sul Bethel

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i blant ysgolion sul y cylch, Ddydd Sul, 9 Mai yng nghapel y Garn. Diolch i Betsan, Esther a Medi am ein cynrychioli a gwneud eu rhan mor dda yn y gwasanaeth.

Sgwod Sgwennu

Llongyfarchiadau i Zoe Forster-Brown ar gael ei dewis i fynychu gweithdy ysgrifennu yn ystod gwyliau'r sulgwyn. Da iawn ti.

Knex

Ar Ddydd Mawrth 20 o Ebrill aeth rhai o blyddyn 5 a 6 i Cwm Rheidol i wneud Knex Challenge efo ysgolion eraill. Yn gyntaf, roedd dyn yn dangos ni rownd y ganolfan. Roedden nhw wedi ddangos ffilm i ni o'r hen Nant-y-Moch. Wedyn roedden nhw yn rhoi ni mewn grwp o 3. Cawson ni focs o Knex. Roedd pob grŵp yn cael yr un maint o bopeth i wneud yr her yn deg. Roedd pob grŵp yn gorfod gwneud melin wynt efo'r Knex. Yn gyntaf roedd pawb yn meddwl fod hyn yn amhosib ond fel aeth y diwrnod yn ei flaen roedd e'n ddechrau mynd yn hawddach ac yn hawddach. Yn y diwedd roedd pawb wedi gwneud melin wynt da ond roedd grwp Siwan, Bethan a Sion wedi ennill achos melin wynt nhw oedd y gorau. Roedd pawb wedi cael amser da!

Isha Howard
Blwyddyn 5

Pêl-droed yr Urdd

Ar Dydd Mawrth 20fed o Ebrill aeth rhai o fechgyn a merched blwyddyn 5 a 6 i gystadleuaeth pêl-droed 7 bob-ochr yr Urdd. Chwareom ni 6 gêm. Cafodd y bechgyn hwyl arni, (enillon nhw bob gêm!) ond doedd y merched ddim mor lwyddianus. Cafodd y bechgyn ddim chwarae yn y rownd derfynol, ond cafon nhw drydydd yn y gemau cyntaf. Cafodd pawb hwyl!

Betsan Elenid Siencyn
Blwyddyn 5



Chwaraeon

Ieuenctid yn dangos y ffordd

Mae gweithgaredd Clwb Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont bellach yn ddjarhebol a, gyda datblygiadau newydd cyffrous ar y gweill, mae disgwyl i'r clwb fynd o nerth i nerth. Nid y canlyniadau ar y cae sy'n hollbwysig wrth gwrs ond y cyfle a roddir i ieuenctid yr ardal i chwarae pêl-droed, ond mae'n braf medru adrodd ar dipyn o lwyddiant i'r timoedd yn y cystadlaethau lleol.

Ar ddechrau tymor enillodd Tal-y-bont Teigars (dan 15) Cwpan Coffa Gary Pugh, yna, wedi tymor hir o gystadlu, daeth y frwydr am y safle cyntaf y gynghrair lawr i'r gêm ddiwethaf yn erbyn Bow Street. Wedi chwarae 15 gêm heb golli'r un ohonynt, byddai gêm gyfartal yn ddigon i Dal-y-bont i ennill y gynghrair. Ond profodd hon yn gêm galed iawn, gyda Bow Street ar dân o'r cychwyn gan chwarae yn gorfforol iawn. Ar un adeg roedd Bow Street ar y blaen 3-0, ond gyda 10 munud i fynd dyma Dal-y-bont yn deffro ac yn sgorio dwy gôl hwyr. Yn anffodus sgoriwyd yn rhy hwyr a'r sgôr terfynol oedd 3-2 i Bow Street a hwy gipiodd y gynghrair ar wahaniaeth goliau.

Ar 1 Mai roedd gêm bwysig arall gan y Teigars, sef rownd derfynol Cwpan y Gynghrair yn erbyn Llanilar ar Goedlan y Parc, Aberystwyth, - achlysur mawr i'r chwaraewyr ifanc. Y tro hwn roedd Tal-y-bont wedi paratoi ac wedi gwneud eu gwaith cartref ac yn barod am unrhyw beth fyddai Llanilar yn taflu atynt. Cafwyd chwarae dawns a chreadigol a rheolodd Tal-y-bont y gêm wrth fynd mewn i'r egwyl ar y blaen 2-1. Ar ddechrau'r ail hanner sgoriodd Llanilar yn syth i wneud y sgôr yn gyfartal, ond roedd hyn yn ddigon i Dal-y-bont newid gŵr a sgoriwyd y drydedd gôl i Dal-y-bont gyda dim ond 13 munud yn weddill o'r gêm. Daliodd chwaraewyr Tal-y-bont eu tir yn gyfforddus am weddill y gêm i ennill y Gwpan.



Dyfarnwyd mwy o dlysau i Dal-y-bont wrth i Harri James ennill chwaraewr gorau'r gêm ac Ifan Burrell enillodd chwaraewr gorau'r gynghrair dan 15 dros y tymor. Llongyfarchiadau mawr i'r tîm am dymor mor llywyddiannus.

Ni chafodd tîm dan 11 oed Tal-y-bont (blwyddyn 5 a 6) gymaint o hwyl arni yn rownd derfynol Cwpan y Gynghrair yn erbyn Penllwyn. 0-0 oedd y sgôr ar yr egwyl, ond yn erbyn lliw y chwarae sgoriodd Penllwyn ddwywaith yn yr ail hanner i gipio'r Gwpan. Serch hynny cafwyd ymdrech lew gan chwaraewyr Tal-y-bont, nid yn unig yn y rownd derfynol ond drwy gydol y tymor.

Llongyfarchiadau felly i holl

dimoedd ieuenctid Tal-y-bont, a diolch hefyd i'r hyfforddwy'r a'r trefnwyr sy'n rhoi cymaint o'u hamser a'u hegri yn ystod y tymor.



Trip Clwb Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont

Ddydd Sadwrn 17 Ebrill aeth llond bws o blant a rhieni ar drip blynyddol Clwb Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont i Abertawe, i wyluo tîm y ddinas yn chwarae yn erbyn Barnsley. Roedd hon yn gêm bwysig iawn i'r tîm cartref, ac roedd angen iddynt ei hennill. Ni chafodd y cefnogwyr eu siomi, oherwydd cafwyd gêm hynod gyffrous, gydag Abertawe'n ennill yn gyfforddus o 3 gôl i 1. Cafwyd swper blasus yn Llanddarog ar y ffordd adre, a hoffai pawb ddiolch i Mark am drefnu trip llwyddiannus iawn.

I'r chwith: tîm dan 11 Tal-y-bont, ac isod, y tîm dan 11.

Islaw: yn y gêm rhwng tîm dan 15 Tal-y-bont yn erbyn Bow Steet, mae Tal-y-bont (crysau melyn) yn ildio gôl i beniad nerthol o gic gornel.